# Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon

## CWLS (2) 04-07 (p5)

## Dyddiad y cyfarfod: dydd Mercher 14 Mawrth 2007
## Amser y cyfarfod: 9:00am – 12:15 pm
## Lleoliad y cyfarfod: Ystafell Bwyllgora 1, Y Senedd

### Cynllun Iaith Gymraeg Drafft, Cynulliad Cenedlaethol Cymru

### Diben

1. Nodi'r cynnydd o ran yr ymgynghoriad ar Gynllun Iaith Gymraeg drafft Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

### Cefndir

2. Paratowyd y Cynllun yn wirfoddol gan y Comisiwn Cysgodol o dan Adran 21 ac Adran 9 o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993, gyda chyngor a chefnogaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Mae'r cynllun yn corffori'r egwyddor y bydd y Cynulliad yn trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal, wrth ymgymryd â busnes cyhoeddus ac mae'n disgrifio sut y bwriada weithredu'r egwyddor honno wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru.

3. Cynhelir ymgynghoriad cyhoeddus ar y Cynllun, a hysbysebwyd yn eang, rhwng 19 Chwefror a 30 Mawrth.

4. Yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus, bydd adroddiad cryno o'r sylwadau a dderbyniwyd yn cael ei ddrafftio a'i gyhoeddi ar wefan y Cynulliad a bydd y Cynllun drafft yn destun trafodaeth bellach gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Cyflwynir drafft terfynol i Gomisiwn y Cynulliad ar ôl yr etholiad, cyn ceisio cymeradwyaeth yr Aelodau yn y Cyfarfod Llawn.